

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/6069/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). Fel y gwyddoch efallai, cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU ar 4 Medi 2024, gweler y Bil a'r Nodiadau Esboniadol wedi'u hatodi. Mae'r datganiad polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil ar gael yn [Water \(Special Measures\) Bill: policy statement - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad ym manifest o'r Llywodraeth Lafur. Mae'r Bil yn gam cynnar i wella ansawdd dŵr, sy'n destun pryder mawr i'r cyhoedd. Mae'r Bil arfaethedig yn ymateb i fethiannau canfyddedig eang yn y ffordd y mae'r sector dŵr wedi delio â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio.

Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r diwydiant dŵr, sy'n fater datganoledig, ac ag ansolfedd, sy'n fater sydd wedi'i gadw yn ôl. Rwyf wedi cytuno y bydd rhai o gymalau'r Bil yn berthnasol i Gymru ac wedi ceisio pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i rai'r Ysgrifennydd Gwladol. Rwy'n credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac yn help i orfodi gofynion rheoleiddio yn y sector dŵr, gan wella perfformiad cwmnïau dŵr yng Nghymru.

Yn dilyn gosod y Bil yn Senedd y DU, rwy'n cynnig dechrau'r broses cydsynio deddfwriaethol ac o blaid cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod y Bil wedi'i ddatblygu'n gyflym, byddaf i a fy swyddogion yn parhau i graffu ar y mesurau a gynigir ac yn ystyried yr holl effeithiau posibl i Gymru drwy gydol y broses Seneddol.

Rwy'n awyddus i gysylltu'n fuan â chi am y mater, felly os hoffech drafod hyn ymhellach, rhowch wybod i mi. Byddaf hefyd yn codi'r mater hwn ar lawr Senedd Cymru'n fuan.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping strokes that form a stylized representation of the name.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs